Chwefror 2020

# moroedd glân
troi'r llanw ar blastig
# clean seas
turn the tide on plastic

Yn falch o fod yn rhan o Bartneriaeth Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig mae

## Partneriaeth Moroedd Glân Cymru

yn arwain y ffordd wrth gyflawni Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru i leihau sbwriel môr


Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i weithredu a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol sbwriel môr. Gyda Statws y Faner Las ar ein traethau ers dros 30 mlynedd, ac ar ôl 25 mlynedd o Lanhau Traethau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, mae eisoes gan Gymru hanes o gyflawniadau rhagorol. Thema Croeso Cymru ar gyfer 2018 oedd Blwyddyn y Môr, a chynhaliodd Caerdydd Uwchgynhadledd Gefnforol a Ras Cefnfor Volvo. Mae Cymru yn wlad fach, ond achubodd y bartneriaeth ar y cyfle i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni, a bydd y grŵp yn parhau i adeiladu ar y gwaddol hwn drwy gydweithio i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr, gan ymgysylltu â sefydliadau, busnesau a chymunedau sydd wedi ymrwymo i gymryd camau.

### Y cynnydd hyd yn hyn…………..

Cwrddodd y grŵp ym mis Tachwedd i adolygu'r gwaith y mae partneriaid wedi'i wneud yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru. Mae'r adolygiad bellach wedi cael ei gyhoeddi. Gallwch ei ddarllen yma

REVIEW

### Yr Uwchgynhadledd Gefnforol oedd y man cychwyn, bydd y llwyddiant yn parhau…..




**Glanhau Traethau Cymru Gyfan**

Cynhaliwyd ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus ym mis Medi 2018 gyda digwyddiadau ledled Cymru. Cliciwch yma i ddarllen mwy.



**Ymchwil i Sbwriel y Môr**

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid EMFF i gonsortiwm a arweinir gan Gadwch Gymru'n Daclus i wneud ymchwil i sbwriel môr a chefnogi'r CGSM.



**Prosiect Mawr Glanhau Traethau Prydain**

Cynhaliodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol dros 30 sesiwn glanhau traeth ac arolygon sbwriel yn ystod y flwyddyn diwethaf, gyda dros 700 o wirfoddolwyr lleol yn helpu i gasglu dros 15,000 o eitemau o sbwriel o draethau Cymru



**Cragen y Moroedd Glân**

Weloch chi fe? Clamp o byped anghenfil môr 20m o hyd, wedi'i greu gan Theatr Byd Bychan yn hollol o sbwriel môr, ar ei daith ar hyd arfordir Cymru.



**Yr Eco-lolfa**

Atyniad Poblogaidd yn Ras Cefnfor Volvo, a ddenodd dros 180k o ymwelwyr i Awdurdod Harbwr Caerdydd. Croeso Cymru a greodd y prosiect sy'n cynnwys dodrefn wedi'u huwchgylchu o sbwriel môr.




**Gallwch chi Stopio'r Bloc**

Mae ymgyrch Dŵr Cymru wedi llwyddo i dynnu sylw at bethau na ddylen nhw fynd lawr y toiled! **Dysgwch fwy yma!**

DŴR TAP AM DDIM YMA
refill.org.uk
#RefillCymru
Refill
FREE TAP WATER HERE

**Ail-Lenwi Cymru**

Ymgyrch i atal miliynau o boteli plastig yn y tarddiad. I gael yr ap neu ddysgu sut i gymryd rhan **cliciwch yma!**



**Bertie the Sea Bass**

Cerflun gwrthstaen eiconig wedi'i lenwi â sbwriel plastig a gasglwyd o draethau lleol gan wirfoddolwyr, er mwyn ein hatgoffa ni am y plastig ar ein traethau ac yn ein moroedd.




**Ymddiriedolaeth y Môr**

Ceidwaid y Môr yn gweithio gyda physgotwyr lleol i nodi'r brif rwystrau a meddwl am ffyrdd o gasglu a gwaredu sbwriel môr yn harbwr Abergwaun.




**Ymgyrch Glanhau Traethau'r Gwanwyn**

Cynhaliodd Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth y digwyddiad hwn ledled y wlad ym mis Ebrill y llynedd. Mae arolwg y **llynedd yma.**

# Erthyglau Newyddion

## Ymgynghoriad ar Fwy nag Ailgylchu

Hoffwn ni glywed eich syniadau. Oes gennych syniad gwych yr hoffech chi ei rannu?

Ymunwch a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Hannah Blythyn AM a fydd yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r digwyddiadau rhanbarthol sydd ar y gweill. Dewch a rhannu eich syniadau am y ffordd y gall Cymru weithio tuag at ddim allyriadau a lleihau ein hôl troed carbon.

| | | |
|---|---|---|
| 26 Chwefror | Ynys Môn | digwyddiad cymunedol gyda'r nos |
| 27 Chwefror | Bangor | digwyddiad ymgysylltu |
| 4 Mawrth | Hwlffordd | digwyddiad cymunedol gyda'r nos |
| 5 Mawrth | Arberth | digwyddiad ymgysylltu |
| 9 Mawrth | Cas-gwent | digwyddiad ymgysylltu a digwyddiad cymunedol gyda'r nos |
| 12 Mawrth | Yr Wyddgrug | digwyddiad ymgysylltu a digwyddiad cymunedol gyda'r nos |
| 25 Mawrth | Aberystwyth | digwyddiad cymunedol gyda'r nos |
| 26 Mawrth | Machynlleth | digwyddiad ymgysylltu |

Archebwch eich lle yn rhad ac am ddim drwy clicio ar leoliad uchod neu ar y ddolen isod:

https://tocyn.cymru/en/organisation/0cff23c5-1a3c-42d4-b500-0ae42c72e7a5

### Ar y gweill

PUT THIS on YOUR CALENDAR!

**20 Mawrth – 13 Ebrill** Gwanwyn Glân Cymru 2020

**Dydd Sul 19 Ebrill 11am – 12.20pm** Arolwg Sbwriel a Glanhau'r Traeth yn Nhraeth Langland

**18 – 26 Ebrill** The Big Spring Beach Clean: Summit to Sea

### 2020 Y Camau Nesaf….

NEXT STEPS

Bydd Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr (CGSM) Cymru 2020-2023.

Bydd partneriaid yn adnewyddu eu haddewidion yn unol ag CGSM 2020-23

Bydd Adroddiadau ar Sbwriel Môr yn cael eu cyhoeddi

Tudalennau ar wedd newydd yn cael eu lansio ar wefan Busnes Cymru

### Addysg

**Y Cymdeithas Cadwraeth Forol**
Cool Seas Explorers Project
**Cadwch Gymru'n Daclus**
Rhaglen Eco-ysgolion
**Ymddiriedolaeth y Môr**
Rhaglen Addysg
**Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth**
Rhaglen Addysg
**Dŵr Cymru**
Rhaglen Addysg
**Fforwm Arfordirol Sir Benfro**
Cwricwlwm Arfordirol

## Gwybodaeth Ddefnyddiol a Dolenni

**Newyddion Partneriaeth Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig**
Darllenwch beth sy'n digwydd o gwmpas y byd yma

**Trefnu eich sesiwn Glanhau Traeth eich hun gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Forol**
Dod o hyd i draeth a chofrestru yma

**Trefnu eich sesiynau casglu sbwriel eich hun gyda hybiau sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus.**
Hybiau codi sbwriel a gwybodaeth

**Rhwydwaith Traethau Glân De Cymru**
Grŵp Facebook

**Cynllun Dychwelyd Ernes**
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad

**Yr Alban**
Ymchwil i lygredd plastig yn y môr

**Mwy nag Ailgylchu**
Strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru

Strategaeth Economi Gylchol

## Ffrydiau Cyllid o Ddiddordeb.

Help i fusnesau ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
Cronfa Cymunedau'r Arfordir
Cronfeydd Strwythurol yr UE
Coastal Fountain Fund
Cronfa'r Diwydiant Twristiaeth

Am ragor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r gwaith maen nhw'n ei wneud ewch i'w gwefannau

Manylion Cyswllt E-bost: WalesCleanSeasPartnership@gov.Wales